Ombudsman Ombwdsmon

PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Hawdd ei Ddarllen

Cynnwys

3 Cyflwyniad

5 Bod yn deg gyda phawb

8 Nodau’r Ombwdsmon

10 Beth fyddwn ni’n ei wneud

13 Sut byddwyn ni'n gwneud yn siŵr ein bod yn deg gyda phawb

15 Rhannu gwybodaeth

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen yma'n dangos sut mae **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)** yn bwriadu gwneud yn siŵr ei fod yn deg gyda phawb yn ei holl waith.

Ombudsman Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)** yn sefydliad annibynnol sy'n delio â chwynion am **wasanaethau cyhoeddus** y cyrff canlynol:

- Cynghorau lleol
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)
- Cymdeithasau Tai
- Llywodraeth Cymru

Mae **gwasanaeth cyhoeddus** yn golygu gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan sefydliad sy'n rhan o'r llywodraeth.

Ysgrifennu'r cynllun yma

Cyn ysgrifennu'r cynllun yma, roedden ni wedi gwrando ar farn:

- Sefydliadau'r llywodraeth sy'n gweithio i wneud pethau'n deg i bawb

- Ein staff

- Nifer o fudiadau sy'n cynrychioli **cymunedau** gwahanol yng Nghymru

Mae **cymunedau** yn golygu grwpiau o bobl sy'n byw yn yr un lle neu sydd â rhywbeth yn gyffredin.

Bod yn deg gyda phawb

Mae’r gyfraith yn dweud ei bod yn rhaid i ni:

- Gwneud yn siŵr fydd pobl ddim yn cael eu trin yn wael oherwydd pwy ydyn nhw

- Rhoi cyfle teg i bawb wneud pethau

- Helpu pobl o gymunedau gwahanol i yrru ymlaen â’i gilydd yn dda

Rhaid i ni wneud yn siŵr na fyddwn ni’n trin pobl yn annheg oherwydd:

- Eu hoed

- Eu bod yn anabl

- Eu rhyw

- Eu bod yn hoyw, yn strêt neu'n rhywbeth arall

- Eu **hil**

Mae **hil** yn ymwneud â chefndir

rhywun. Mae hynny'n gallu golygu:

- Lliw croen rhywun.
- O ba wlad maen nhw'n dod
- O ble mae eu teulu'n dod

- Eu crefydd, eu credoau neu eu diffyg cred

- Eu bod yn feichiog neu eu bod newydd gael babi



- Eu bod wedi priodi neu mewn **partneriaeth sifil**



Mae **Partneriaeth Sifil** yn ffordd o wneud eich perthynas yn gyfreithiol heb briodi.



- Eu bod wedi newid eu rhyw

Nodau'r Ombwdsmon

Mae gennym 3 prif nod:

1. Sicrhau **cyfiawnder**

Mae **cyfiawnder** yn golygu tegwch. Mae'n golygu gwneud penderfyniad sy'n deg i bawb.

Mae pobl yn gofyn i ni ddelio â'u cwynion am wasanaethau cyhoeddus.

Rhaid i ni bwyso a mesur pob achos.

Rydyn ni'n ceisio gwneud hyn mewn ffordd sy'n deg i bawb.

2. Gwella gwasanaethau cyhoeddus

Mae hyn yn golygu y dylai gwasanaethau cyhoeddus ddysgu o gwynion pobl a gwella eu gwasanaethau.

Ombudsman Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

3. Rheoli ein sefydliad yn iawn

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Pan fyddwn ni'n pwyso ac yn mesur cwynion pobl, byddwn yn:

- Cadw **cofnodion** sy'n dangos ein bod yn deg gyda phawb



Mae **cofnodion** yn golygu gwybodaeth sy'n cael ei hysgrifennu a'i chadw mewn ffeil neu ar gyfrifiadur.

- Ceisio gweithio gyda phobl nad ydy eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml neu nad ydyn nhw'n cymryd rhan yn aml

- Gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau ni'n addas i anghenion gwahanol y bobl sy'n eu defnyddio

Pan fyddwn ni'n gweithio i wella gwasanaethau cyhoeddus, byddwn yn:

- Gwneud yn siŵr bod ein staff yn edrych ar sefyllfaoedd pan nad ydy rhywun wedi cael ei drin yn deg

- Rhannu mwy o wybodaeth am sut byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl wedi cael eu trin yn deg pan fyddwn ni'n edrych ar gwynion pobl

- Gwneud yn siŵr ein bod yn deg gyda phawb pan fyddwn ni'n cael mwy o waith

Wrth i ni reoli ein sefydliad, byddwn yn:

- Cadw cofnodion sy'n dangos ein bod yn deg gyda phawb sy'n gweithio i ni

- Gwneud yn siŵr ein bod yn deg gyda phawb pan fyddwn ni'n rhoi gwaith i bobl newydd

- Gwneud yn siŵr bod pawb sy'n gweithio i'r Ombwdsmon yn cael eu talu mewn ffordd deg

- Helpu'r holl staff i wybod am: Sut
  - mae bod yn deg gyda phawb

  - Sut mae gwneud yn siŵr ein bod yn cynnwys pobl o bob cymuned wahanol

  - Sut mae gwneud yn siŵr bod ein holl staff yn cadw'n iach

- Gwneud yn siŵr ein bod yn cadarnhau ein bod yn deg gyda phawb pan fyddwn ni'n penderfynu beth i'w wneud

Sut byddwn ni'n gwneud yn siŵr ein bod yn deg gyda phawb

Bob blwyddyn byddwn yn edrych ar sut rydyn ni'n gweithio i fod yn deg gyda phawb.

Bob blwyddyn byddwn yn gofyn i'n staff am eu barn drwy:

- Gofyn iddyn nhw ateb cwestiynau mewn arolwg

- Siarad am hynny mewn cyfarfodydd staff

- Cael rhai staff sy'n gyfrifol am ein helpu ni i fod yn deg gyda phawb

Byddwn hefyd yn gofyn i:

- Sefydliadau'r llywodraeth sy'n gweithio i wneud pethau'n deg i bawb

- Nifer o fudiadau sy'n cynrychioli cymunedau gwahanol yng Nghymru

Bob blwyddyn byddwn yn edrych ar beth arall gallwn ni ei wneud.

Rhannu gwybodaeth

Bydd y cynllun yma ar gael ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol - fel Twitter.

Bydd ar gael mewn fformatau sy'n addas i bobl sydd ag anghenion gwahanol.

Byddwn yn ei rannu â mudiadau sy'n cynrychioli cymunedau gwahanol yng Nghymru.

Flwyddyn nesaf, byddwn hefyd yn darparu Adroddiad **Cydraddoldeb**.

Mae **cydraddoldeb** yn golygu bod yn deg gyda phawb yn yr un ffordd.

Bydd yr Adroddiad Cydraddoldeb yn edrych ar:

- Pa mor dda ydyn ni’n gweithio i fod yn deg gyda phawb

- Sut ydyn ni’n bod yn deg gyda’n staff a’r bobl sy’n defnyddio ein gwasanaethau

- Unrhyw syniadau sydd gennym ni i wella'r ffordd rydyn ni’n gweithio



- Y gwaith rydyn ni’n bwriadu ei wneud yn y flwyddyn 2020 i 2021